# UN LLAIS CYMRU

**Rhestr wirio ar gyfer rheoli gweithio gartref**

Gall pobl sy'n gweithio i gyngor gartref weithio'n llawn-amser neu'n rhan-amser a gellir eu cyflogi yn barhaol neu am gyfnod penodol. Gallant weithio gartref yn gyfan gwbl neu gallant rannu eu dyletswyddau gwaith rhwng eu cartref a'r gweithle.

☐ Wrth recriwtio ar gyfer swydd fydd yn cynnwys gweithio gartref, ceisiwch asesu a oes gan y darpar weithiwr y sgiliau a'r priodweddau angenrheidiol, gan gynnwys:

- hunanddisgyblaeth
- y gallu i weithio heb oruchwyliaeth uniongyrchol
- sgiliau trefniadol
- y gallu i reoli amser yn effeithiol
- sgiliau cyfathrebu effeithiol
- y gallu i ymdopi â'r posibilrwydd o alwadau croes rhwng gwaith a'r cartref/teulu.

☐ Mae gan gynghorau ddyletswydd i ofalu am iechyd, diogelwch a lles gweithwyr gartref yn yr un modd ag y byddent am weithwyr yn gweithio ar eiddo'r cyngor.

☐ Rhaid gofalu fod amgylchedd cartref y gweithiwr yn addas ar gyfer gweithio gartref (er enghraifft, o ran yr amgylchedd, faint o le sydd ar gael ac unrhyw offer y bydd y gweithiwr yn ei ddefnyddio) ac mor ddi-berygl ag y mae'n rhesymol ymarferol iddo fod.

☐ Gan ddibynnu ar y math o waith sydd dan sylw, efallai y bydd rhaid hyfforddi'r gweithiwr gartref i drin a thrafod unrhyw offer a defnyddiau sy'n rhan o'r swydd.

☐ Os yw'r gwaith yn cynnwys defnyddio cyfrifiadur, rhowch ganllawiau a gweithdrefnau ysgrifenedig i'r gweithiwr gartref ar gyfer defnyddio offer arddangos gweledol a threfnwch fod y gweithiwr gartref yn llofnodi copi o'r canllawiau yn cadarnhau ei fod ef neu hi wedi eu darllen, eu deall ac yn eu derbyn.

Gwe-Ddolen https://www.hse.gov.uk/pubns/ck1.htm

☐ Meddyliwch yn ofalus a ddylai unrhyw gelfi, taclau a/neu offer (e.e. cyfrifiadur) sydd eu hangen ar gyfer y gwaith gael eu darparu gan y cyngor neu'r gweithiwr gartref. Fel arfer dylai'r cyfrifiadur gael ei ddarparu gan y Cyngor i sicrhau bod gofynion GDPR yn cael eu rheoli ac y rhoddir sylw i faterion diogeledd (e.e. gosod meddalwedd atal-feirysau).

☐ Os yw'r offer yn cael ei ddarparu gan y cyngor ac os mai'r cyngor sy'n talu amdano, byddant yn gallu penderfynu sut fydd yn cael ei ddefnyddio a gosod rheolau neu gyfyngiadau ar y defnydd y gellir ei wneud ohono.

☐ Gwiriwch eich polisïau yswiriant (e.e. yswiriant atebolrwydd y cyngor) i wneud yn siŵr

fod y warant angenrheidiol yn bod ar gyfer gweithwyr sy'n gweithio gartref yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

- ☐ Gofynnwch i'r gweithiwr gartref wirio eu polisïau yswiriant cartref a chynnwys ac unrhyw gytundebau morgais/rhentu i wneud yn siŵr nad ydynt yn gwahardd gweithio gartref neu'n annilysu gwarant ar gyfer y math arbennig o waith y bwriedir ei wneud yn y cartref.
- ☐ Os yw swydd y gweithiwr gartref yn cynnwys delio gyda gwybodaeth gyfrinachol neu sensitif, dylid cymryd camau priodol i sicrhau bod yr holl drefniadau gwaith yn ddiogel ac nad oes unrhyw berygl y torrir amodau cyfrinachedd unrhyw wybodaeth a gedwir yn y cartref.
- ☐ Os oes plant yn y cartref, ceisiwch gytuno gyda'r gweithiwr gartref gamau ddylid eu cymryd fydd yn eu rhwystro rhag cyrraedd a defnyddio cypyrddau ffeilio neu'r cyfrifiadur y bydd y gweithiwr gartref yn eu defnyddio.
- ☐ Os yw'r gweithiwr gartref yn debygol, wrth gyflawni ei waith neu ei gwaith, i gael neu ddefnyddio gwybodaeth bersonol am unigolion, dylech ofalu ei fod ef neu ei bod hi yn cael hyfforddiant llawn ar ofynion Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'r Ddeddf Diogelu Data gyfredol sy'n berthnasol i ddiogeledd data. Awgrymir eich bod yn cyhoeddi, neu'n ail-gyhoeddi, eich polisi diogelu data.
- ☐ Dylech ystyried a ddylai fod unrhyw ddarpariaeth gytundebol yn atal/cyfyngu ar allu gweithwyr gartref i wneud gwaith am dâl i gynghorau eraill.
- ☐ Dylech wneud trefniadau ar gyfer cyflenwi gwaith i gartref y gweithiwr a'i gasglu oddi yno. Dylid deall o'r cychwyn ai'r cyngor neu'r gweithiwr gartref fydd yn gyfrifol am hyn.
- ☐ Bydd yn bwysig cytuno a ddylid contractio'r gweithiwr gartref i weithio oriau penodedig neu a ellir cael hyblygrwydd o ran am faint o oriau y mae ef neu hi yn gweithio a phryd y gweithir yr oriau hynny. Yn aml, mae'n well seilio'r contract (a'r dulliau mesur perfformiad) ar faint o waith y mae'r gweithiwr gartref yn ei gyflawni.
- ☐ Os nad oes unrhyw oriau penodedig, efallai y byddai'n briodol er hynny cytuno gyda'r gweithiwr gartref y bydd ef/hi ar gael ar adegau penodol (oriau craidd) er mwyn gallu cysylltu ar y ffôn neu drwy e-bost.
- ☐ Mae'n bwysig cofio fod Rheoliadau Amser Gwaith 1998 yn berthnasol i weithwyr gartref.
- ☐ Dylai contractau gweithwyr gartref nodi a fydd rhaid, ac os felly, pa mor aml, iddynt fynd i eiddo'r cyngor ar gyfer cyfarfodydd neu at ddibenion eraill.

Er mwyn cael canllawiau ar lwfansau a delir i weithwyr yn gweithio gartref trowch at y canllawiau gan HMRC sydd i'w gweld yn y we-ddolen ganlynol: -

https://www.gov.uk/expenses-and-benefits-gweithio gartref

https://www.gov.uk/expenses-and-benefits-business-travel-mileage/rules-for-tax